**Cyngor Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**

**Cofnodion ANGHYFYNGEDIG** y cyfarfod Rhithiwr a gynhaliwyd am 12.30 ddydd Mercher 24 Mawrth 2021 drwy Zoom

Yn bresennol:
Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd)
Tony Ball
Pam Berry
Andrew Curl
Tania Davies
Margaret Evans
Eifion Griffiths
Yr Athro Medwin Hughes
Arwel Ellis Owen
Matthew Peake
Victoria Provis
Geraint Roberts
Dr Liz Siberry
Maria Stedman
Dr Kerry Tudor

Hefyd yn bresennol:
Sarah Clark, Clerc y Cyngor
Steve Baldwin, Cyfarwyddwr Adnoddau a Chynllunio Busnes

Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol
Dr Andrew Cornish, Pennaeth, Coleg Sir Gâr
Tammy Bowie
Shône Hughes, Pennaeth Staff
Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor
Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol
Yr Athro Catrin Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd)
Catrin Beard (Cyfieithydd)
Margaret Williams (Ysgrifennydd)

Aelodau Cyngor Prifysgol Cymru yn bresennol fel sylwedyddion:
Nigel Roberts

| Eitem Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 21.10<br>Ymddiheuriadau am absenoldeb | DERBYNIODD y Cyngor ymddiheuriadau am absenoldeb gan Rowland Jones a Dr Conny Matera Rogers, Georgia Thomas | |
| 21.11<br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2021 | CADARNHAODD y Cyngor Gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 28 Ionawr 2021 fel cofnod cywir (CO339). | |
| 21.12<br>Materion sy'n codi a phwyntiau gweithredu | DERBYNIODD y Cyngor y tabl pwyntiau gweithredu a ddiweddarwyd (CO340).<br><br><u>Gweithred Cymdeithasu rhwng PCYDDS a Phrifysgol De Cymru</u><br>Adroddodd y Clerc fod y Weithred wedi'i chwblhau ar 8 Chwefror 2021. | |
| 21.13<br>Adroddiad Bwrdd Coleg Sir Gâr 4 Mawrth 2021 | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod Bwrdd Coleg Sir Gâr a gynhaliwyd 4 Mawrth 2021 (CO340).<br><br>Hysbysodd Cadeirydd Bwrdd CSG y Cyngor am newidiadau arfaethedig yn aelodaeth y Bwrdd gydag wyth aelod yn dod i ddiwedd eu tymor. Roedd y Bwrdd wedi gwahodd unigolion i fynegi eu diddordeb mewn adnewyddu aelodaeth gan nodi bod y Bwrdd yn cadw'r hawl i beidio ag adnewyddu. Byddai'r cam gweithredu hwn yn hwyluso cynllunio olyniaeth. | |
| 21.14<br>Adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio a Risg | YSTYRIODD y Cyngor adroddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2021 a 10 Mawrth 2021 (CO342).<br><br>Adroddodd Cadeirydd y PAR fod y PAR wedi ystyried datganiadau ariannol PCYDDS a chyfrifon yr is-gwmnïau ac roedd yn argymell eu cymeradwyo gan y Cyngor.<br><br>Adroddodd Cadeirydd y PAR fod y Pwyllgor wedi gofyn i swyddogion ddarparu adroddiad ar y prosesau a'r rheolaethau am ddelio â chyllid ychwanegol gan LIC yn gysylltiedig â Covid, ac wedi gofyn i hyn hefyd gael ei gynnwys yn rhaglen yr archwiliad mewnol am 2021/22. | |
| 21.15<br>Datganiadau ariannol is-gyrff PCYDDS | YSTYRIODD a CHYMERADWYODD y Cyngor ddatganiadau ariannol is-gyrff canlynol PCYDDS:<br>• Eclectica Drindod Limited<br>• Mentrau Creadigol Cymru | |

| Eitem Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | • Coleg y Drindod Caerfyrddin<br>• Y Ganolfan Dysgu Cymraeg<br>• UWTSD Investments Limited<br><br>Adroddodd y CGA fod yr archwilwyr allanol wedi gofyn i lythyron cefnogaeth gael eu rhyddhau gan PCYDDS ar gyfer MCC, UWTSDI a CBM. Darparodd y llythyron hyn gysur y byddai PCYDDS yn defnyddio ei disgresiwn ynghylch trafodion arian parod yn y cyfnod er mwyn sicrhau bod yr is-gyrff yn parhau â'r gallu i fod yn gyfrifol am eu rhwymedigaethau am gyfnod o 12 mis. Ni ddisgwylid y byddai'n ofynnol i unrhyw is-gorff dderbyn chwistrelliad o gyllid.<br><br>CYTUNODD y Cyngor y dylai swyddogion baratoi'r llythyron cefnogaeth a'u bod yn cael eu llofnodi gan y Cadeirydd.<br><br>Cyfeiriodd aelodau at gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr yr is-gwmnïau ynghylch y datganiadau ariannol. Cadarnhaodd y CGA y byddai'n newid proses cyflwyno'r datganiadau. Yn y dyfodol byddai datganiadau'r is-gwmnïau'n cael eu paratoi'n gyntaf er mwyn i'r Byrddau perthnasol gael y cyfle i graffu arnynt cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cyngor yn rhan o'r cyfrifon cyfunol. | Swyddogion i baratoi llythyron cefnogaeth i'w llofnodi gan y Cadeirydd |
| 21.16<br>Adroddiad y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2021 (CO343).<br><br>Cyfeiriodd Cadeirydd y PAR at y datblygiadau arfaethedig yn Llambed. Nododd y bwriad i wahodd aelodau'r Cyngor i gyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor i ystyried opsiynau i'r dyfodol.<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor argymhelliad y Pwyllgor i ddileu hen ddyledion drwg. | |
| 21.17<br>Cynllun Strategol: adroddiad monitro blynyddol a chynigion i'r dyfodol | YSTYRIODD y Cyngor Adroddiad Blynyddol y Cynllun Strategol a chynigion i'r dyfodol ynghylch y Cynllun Strategol nesaf (CO344).<br><br>Adroddodd y Clerc fod y Cynllun Strategol cyfredol yn cwmpasu blynyddoedd academaidd 2017/18 i 2021/22 ac felly byddai ganddo flwyddyn bellach i'w rhedeg pan ddeuai'r flwyddyn academaidd gyfredol i ben. Yn nodweddiadol byddai datblygu a chymeradwyo cynllun newydd yn cymryd blwyddyn academaidd lawn. Roedd uwch swyddogion wedi ymgymryd | |

| Eitem Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | ag adolygiad rhagarweiniol o'r Cynllun Strategol ac yn credu, er y byddai nifer o feysydd yn elwa o gael eu cyfoethogi, fod y Cynllun yn parhau i fod yn gyfredol ac yn ddilys o ran ei fynegiant o flaenoriaethau a gwerthoedd y sefydliad, ac o ran y mesurau llwyddiant cysylltiedig. Credai swyddogion y byddai'n ddoeth gohirio gwaith manwl ar Gynllun newydd am flwyddyn, a fyddai hefyd yn hwyluso cyd-ddatblygu cynllun integredig i Grŵp PCYDDS fel cyfangorff. Trafodwyd y potensial am gynllun o'r fath yng nghyfarfod Chwefror 2021 o Senedd PCYDDS.<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor argymhellion y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad y dylai:<br><br>(a) y Cynllun Strategol cyfredol gael ei ymestyn i gwmpasu 2022/23, a bod nifer o benawdau a blaenoriaethau'n cael eu cyfoethogi a'u cryfhau o fewn y Cynllun estynedig, yn benodol y Genhadaeth Ddinesig; yr Amgylchedd Digidol; Cynwysoldeb; ac Iechyd a Llesiant;<br><br>(b) y gwaith ar Gynllun newydd, i'w weithredu yn 2023/24, ddechrau'n gynnar yn 2022/23, o bosibl fel gweithgaredd ar y cyd â CSG. | |
| 21.18<br>Adroddiad monitro Dangosyddion Perfformiad Allweddol | YSTYRIODD y Cyngor adroddiad monitro'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (CO345).<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor y newid yn 1.4.2 yn fframwaith y Dangosyddion Perfformiad Allweddol i adlewyrchu'r newid yn y cyfamodau bancio ym mis Rhagfyr 2020, gan newid y mesur o gyfanswm yr asedau net **yn cynnwys** rhwymedigaethau asedau pensiwn i asedau net **ac eithrio** rhwymedigaethau pensiwn. | |
| 21.19<br>Diweddariad Ariannol Hanner Blwyddyn PCYDDS | Mae'r eitem hon dan gyfyngiadau ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod | |
| 21.20<br>Adroddiad cyfarfod y Senedd | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Senedd a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2021 (CO347). | |
| 21.21<br>Datganiad Canlyniadau Gradd 2019/20 | YSTYRIODD y Cyngor Ddatganiad Canlyniadau Gradd 2019/20 (CO348).<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor y datganiad i'w gyhoeddi. | Y datganiad i'w gyhoeddi ar wefan y Brifysgol |

| Eitem Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | | |
| 21.22<br>Datganiad TRAC | CYMERADWYODD y Cyngor y datganiad i TRAC (CO349). | |
| 21.23<br>Athrawon Ymarfer: enwebiadau i'w cymeradwyo | CYMERADWYODD y Cyngor yr enwebiadau gan y Senedd i benodi Athrawon Ymarfer (CO351). | |
| 21.24<br>Teitlau Academaidd: argymhellion i'w cymeradwyo | CYMERADWYODD y Cyngor argymhellion y Senedd am Deitlau Academaidd (CO352). | |
| 21.25<br>Defnydd o Sêl y Brifysgol | DERBYNIODD y Cyngor yr adroddiad ar y defnydd o Sêl y Brifysgol (CO353). | |
| 21.26<br>Datganiadau o fuddiannau | Ni ddatganwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau ychwanegol yn ystod y cyfarfod. | |
| 21.27<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 8 Gorffennaf 2021. | |
| | | |
| | | |

Terfynwyd y cyfarfod am 1.20